UNED 3: PŴER DATA

Ystod oedran: disgyblion 9-13 oed

Amlinelliad
Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn creu ffeithluniau syml sy'n codi ymwybyddiaeth o rai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng bywydau pobl. Bydd y dysgwyr yn ystyried yn gyntaf pam a sut y mae llywodraethau a sefydliadau yn defnyddio data er mwyn gwneud penderfyniadau wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddant yn ymchwilio i rai ffyrdd y mae "llesiant" yn cael ei fesur mewn modd ansoddol ac yn ystyried cwestiynau am ddata o bedair gwlad Bywydau Ifanc, a hefyd y DU. Yn dilyn hyn bydd y dysgwyr yn trafod beth yw ystyr anghydraddoldeb a sut y gall fodoli rhwng gwledydd ac o'u mewn. Byddant yn ystyried sut y mae sefydliadau fel Oxfam yn defnyddio ffeithluniau er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb, cyn mynd ati i greu eu ffeithluniau eu hunain.

Amcanion dysgu
- Datblygu sgiliau defnyddio meddalwedd i greu ffeithlun
- Bod yn ymwybodol o rywfaint o ddata "llesiant" y mae llywodraethau, sefydliadau a chymunedau yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Gwybod beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu a chydnabod rhai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng ac o fewn gwledydd Bywydau Ifanc a'r DU.

Deilliannau dysgu
- Bydd dysgwyr yn creu ffeithluniau syml sy'n codi ymwybyddiaeth o rai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng bywydau pobl.
- Bydd dysgwyr yn ystyried rhai mesurau "llesiant" y mae llywodraethau, sefydliadau a chymunedau yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Bydd dysgwyr yn archwilio data "llesiant" o wledydd Bywydau Ifanc a'r DU.

Cwestiynau allweddol
- Pa ddata ydych chi'n meddwl allai fod yn ddefnyddiol i lywodraethau a sefydliadau wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol?
- Beth mae hyn yn ei olygu?
- Pa anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng ac o fewn gwledydd?
- Sut a pham y gallai sefydliadau ddefnyddio ffeithluniau i gyflwyno data?
- Pa ffeithlun allech chi ei greu i godi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng gwledydd?

Adnoddau
- *Sioe sleidiau pŵer data*: sleidiau 33 i 41
- Taflen adnoddau:
  1. Mesur llesiant
- Taflen Gweithgaredd:
  1. Cynllunio eich ffeithlun
- Taenlen:
  1. Mesur llesiant

Nodyn pwysig am yr addysgu
Awgrymiadau yw'r gweithgareddau a'r adnoddau hyn a allai gefnogi eich addysgu yn hytrach na'i lywio. Gall fod angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn. Tybir y bydd athrawon yn dewis rhannu'r gweithgareddau mewn uned dros fwy nag un wers.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Gweithgaredd 3.1 (30 mun+)

Mesur llesiant

Noder: Yn ddelfrydol bydd gan y dysgwyr fynediad at gyfrifiadur neu lechen ar gyfer y gweithgaredd hwn.

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl yn ôl i Weithgaredd 2.2 (*Rhannu'r arian*) lle bu'n rhaid iddyn nhw benderfynu ar y ffordd orau o wario arian cymuned. *Pa ddata ydych chi'n meddwl allai fod yn ddefnyddiol i lywodraethau, sefydliadau ac arweinwyr cymunedol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol?*
- Defnyddio sleidiau 34 a 35 i ddarparu enghreifftiau o rai dangosyddion gwahanol y mae llywodraethau, cymunedau a sefydliadau ledled y byd yn eu defnyddio i fesur "llesiant" pobl mewn gwlad neu gymuned. Darperir esboniadau o'r dangosyddion yn nodiadau'r sleidiau. Eglurwch fod y data hyn hefyd yn helpu llywodraethau a sefydliadau i benderfynu pa feysydd i ddyrannu mwy o arian ac adnoddau iddynt.
- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn credu mai'r dangosyddion hyn yw'r ffordd orau o fesur "llesiant". Ydych chi'n meddwl y dylid casglu mathau eraill o ddata i fesur pa mor "dda" y mae pobl yn ei wneud? Tynnwch sylw at y ffaith bod llawer o wahanol ffyrdd o fesur "llesiant" ac nad yw pobl bob amser yn cytuno ar hyn. Defnyddir amrywiaeth o ddangosyddion eraill hefyd megis y Mynegai Planed Hapus sy'n ystyried ffactorau fel pa mor hapus y mae pobl yn teimlo am eu bywydau a'u hôl troed ecolegol. Dysgwch fwy: happyplanetindex.org/
- **Esboniwch fod llywodraethau hefyd yn defnyddio data i osod targedau ar gyfer datblygu a monitro cynnydd tuag at y rhain. Dangoswch sleid 36 ac eglurwch fod arweinwyr gwledydd wedi dod at ei gilydd ym mis Medi 2015 i gytuno ar rai "Nodau Datblygu Cynaliadwy". Cyfres o nodau yw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy y dylai'r byd anelu at eu cyflawni er mwyn gwneud ein planed yn lle tecach, iachach a mwy cynaliadwy erbyn 2030. Bydd llywodraethau'n defnyddio data i'w helpu i fesur cynnydd o ran y Nodau Datblygu Cynaliadwy bob blwyddyn, gyda'r nod o gyflawni'r holl nodau erbyn 2030.**
- Rhannwch y dysgwyr yn barau. Dylai pob pâr gael mynediad i gyfrifiadur neu dabled a chopi o'r daenlen: Mesur llesiant. Eglurwch fod y tabl hwn yn cynnwys data dethol o bob un o bedair gwlad Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam) a'r DU. Os nad yw mynediad i gyfrifiadur ar gael, gallech ddosbarthu copïau o *Fesur llesiant* (Taflen adnoddau 1). Darperir y tabl hefyd ar sleid 37.
- Eglurwch fod y data hyn yn cael eu cyfrifo gan Fanc y Byd, sefydliad sy'n rhoi benthyg arian i wahanol wledydd i gefnogi eu twf a'u datblygiad economaidd. Er enghraifft, gallai ddarparu arian ar gyfer prosiectau seilwaith mawr neu raglenni addysg. Mae Banc y Byd yn defnyddio data fel y rhai a ddangosir yn y tabl Mesur llesiant i weld pa mor "dda" y mae gwlad yn ei wneud.
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y tabl *Mesur llesiant*. Gofynnwch gwestiynau iddyn nhw am y data. Darperir cwestiynau posibl yn nodiadau sleid 37.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i feddwl am eu cwestiynau eu hunain am y data. Caniatewch amser i ddysgwyr rannu eu cwestiynau a cheisio ateb cwestiynau pobl eraill. Gallai dysgwyr mwy abl ddefnyddio fformiwlâu i gymharu'r data, er enghraifft i dynnu'r gwerth mewn un gell oddi wrth y llall.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 3.2 (45 mun+)

Codi ymwybyddiaeth

Noder: Yn ddelfrydol bydd gan y dysgwyr fynediad i gyfrifiadur neu lechen ar gyfer y gweithgaredd hwn. Rhagwelir hefyd y bydd gan yr athro rywfaint o wybodaeth sylfaenol am ddylunio graffig a chyfryngau digidol yn barod. Os oes amheuaeth, argymhellir cynllunio ffeithlun enghreifftiol.

- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych eto ar y data yn y tabl *Mesur llesiant*. Trafodwch y cwestiynau canlynol:
    - Pa ddangosydd llesiant yw'r pwysicaf yn eich barn chi?
    - Pa ran o'r data hyn ydych chi'n meddwl y dylai mwy o bobl fod yn ymwybodol ohoni?
    - Pam yr ydych yn meddwl hyn?
- Tynnwch sylw at y ffaith bod y data yn y tabl hwn yn dangos rhai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ym mywydau pobl, rhwng ac o fewn gwledydd. Dangoswch sleid 38 a defnyddiwch yr wybodaeth yn y nodiadau i egluro beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu a sut y gall fodoli rhwng ac o fewn gwledydd.
- Dangoswch sleid 39 a defnyddiwch yr wybodaeth yn y nodiadau i dynnu sylw at y ffaith y gall anghydraddoldeb effeithio ar fywydau pobl mewn sawl gwahanol ffordd.
- Esboniwch fod sefydliadau fel Oxfam yn defnyddio data i geisio codi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng pobl. Maent yn gweithio gydag eraill i roi pwysau ar y bobl sy'n gwneud penderfyniadau a phobl mewn grym i newid y strwythurau a'r polisïau sy'n cyfrannu at yr anghydraddoldebau hyn.
- Nodwch mai un ffordd y mae Oxfam a sefydliadau eraill yn codi ymwybyddiaeth yw drwy greu a rhannu ffeithluniau. Eglurwch fod ffeithlun yn ffordd o gynrychioli gwybodaeth yn weledol. Mae ffeithluniau yn ddyluniadau trawiadol sy'n cyfuno delweddau, patrymau, diagramau, siartiau a thestun i wneud i wybodaeth sefyll allan a bod yn haws i'w deall. Mae ffeithluniau fel arfer wedi'u cynllunio i adrodd stori i gynulleidfa benodol ac felly mae eu dyluniad yn bwysig iawn.
- Dangoswch sleid 40 a gofynnwch i'r dysgwyr beth maen nhw'n meddwl mae'r ffeithlun hwn yn ei ddangos. Pa ddata sy'n cael ei ddangos? Pa neges ydych chi'n meddwl y mae Oxfam yn ceisio'i gyfleu?
- Eglurwch fod Oxfam wedi cyfrifo yn gynnar yn 2016 fod 62 o'r bobl gyfoethocaf yn y byd yn berchen ar yr un cyfoeth â hanner tlotaf poblogaeth y byd. Trafodwch sut mae dysgwyr yn teimlo am yr ystadegyn hwn. Ydych chi'n meddwl ei fod yn deg? Pam neu pam ddim?
- Dywedwch fod Oxfam wedi codi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldeb hwn drwy greu ffeithluniau a phosteri syml fel yr un a ddangosir ar y sleid hon. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y ffeithlun a thrafod beth maen nhw'n meddwl sy'n effeithiol amdano a beth y gellid ei wella. Darperir cwestiynau trafod posibl yn nodiadau sleid 40.
- Efallai yr hoffech hefyd drafod y ffeithluniau syml ar sleid 41. Eglurwch mai ffeithluniau eraill yw'r rhain y mae Oxfam wedi'u defnyddio yn y gorffennol i godi ymwybyddiaeth o faterion fel y newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldeb.
- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Gofynnwch iddyn nhw ddewis y "dangosydd llesiant" yn y tabl *Mesur llesiant* sydd bwysicaf yn eu barn nhw i godi ymwybyddiaeth amdano. Gallai dysgwyr ddefnyddio data o un wlad yn unig, er enghraifft dim ond 27% o bobl sy'n byw yn Ethiopia sydd â mynediad at drydan. Fel arall, gallent ddefnyddio data o ddwy neu fwy o

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

wledydd i dynnu sylw at yr anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng y gwledydd hyn, er enghraifft mae allyriadau CO2 y pen yn y DU bron bedair gwaith yn fwy na'r allyriadau yn India.

- Rhowch gopi i bob pâr neu grŵp o *Cynllunio eich ffeithlun* (Taflen Gweithgaredd 1). Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cwestiynau hyn i'w helpu i gynllunio eu ffeithlun.
- Cefnogwch y dysgwyr i greu eu ffeithluniau wedyn. Mae llawer o offer a meddalwedd ar gael ar-lein ar gyfer creu ffeithluniau gan gynnwys:
  - Adobe Photoshop CC: www.adobe.com/uk/products/photoshop.html
  - Datawrapper: datawrapper.de
  - Infogr.am: infogr.am
  - Piktochart: piktochart.com
  - Google Charts: developers.google.com/chart/
  - Easelly: www.easel.ly/
  - Venngage: venngage.com/

Noder: Nid eiddo Oxfam a Bywydau Ifanc yw'r offer a'r feddalwedd uchod ar gyfer creu ffeithluniau, ac nid yw Oxfam a Young Lives yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r sefydliadau hyn at ddibenion yr adnodd hwn. Nid yw unrhyw farn a fynegir ar y gwefannau hyn, neu gan y sefydliadau hyn, o reidrwydd yn adlewyrchu barn Oxfam a Bywydau Ifanc. Nid yw Oxfam a Bywydau Ifanc yn cymeradwyo unrhyw un o'r offer na'r feddalwedd hyn.

- Os nad oes mynediad i gyfrifiadur neu lechen ar gael, gallai'r dysgwyr greu eu ffeithluniau â llaw gan ddefnyddio papur a phensiliau neu feiros lliw.
- Caniatewch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i ddysgwyr rannu a gwerthuso eu ffeithluniau gydag eraill yn y dosbarth. Anogwch nhw i feddwl am y cwestiynau roedden nhw'n eu defnyddio i werthuso ffeithluniau Oxfam.
- Yn olaf, trafodwch sut y gallai'r dysgwyr rannu eu ffeithluniau ag eraill yn eu hysgol neu gymuned ehangach i godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb. Os oes gennych amser, cefnogwch eich dysgwyr i gynllunio, cyflawni a gwerthuso eu gweithgarwch neu eu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth eu hunain. Mae awgrymiadau posibl yn cynnwys:
  - *Ymgorffori ffeithluniau mewn tudalen we neu bost blog.*
  - *Cyfuno ffeithluniau i greu fideo, sioe sleidiau neu animeiddiad.*
  - *Creu posteri digidol neu brintiedig i'w harddangos o amgylch yr ysgol.*
  - *Creu sioe sleidiau o ffeithluniau a/neu ddelweddu data o sesiynau blaenorol ar gyfer addysgu cyfoedion gyda dosbarth arall, neu i'w chyflwyno fel gwasanaeth.*
  - *Trefnu cyfarfod gyda'u AS lleol i rannu eu dysgu ac annog y Llywodraeth i weithredu ar anghydraddoldeb.*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gallai'r dysgwyr greu ffeithlun syml i gynrychioli gwerth un "dangosydd llesiant" o un neu ddwy o'r gwledydd.*
- *Gwneud pethau'n anos:*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- *Gallai'r dysgwyr greu ffeithluniau sy'n cynrychioli set ddata fwy, er enghraifft data ar gyfer mwy nag un o'r dangosyddion a/neu ddata sy'n cymharu'r pum gwlad.*
- *Gallai dysgwyr mwy aml ddarganfod mwy am y gwahaniaethau rhwng delweddau bitmap a vector. Delweddau vector yw ffeithluniau gan amlaf sy'n golygu bod modd eu haddasu ar gyfer gwahanol fathau o gyfryngau, o lun ar ffôn clyfar i ochr bws. I gael esboniad byr o'r gwahaniaethau rhwng delweddau bitmap a vector gwyliwch:* www.youtube.com/watch?v=u3BI3DTQqrk (Diolch i: VectorzMedia, cyhoeddwyd ar 13 Chwefror 2015).

Syniadau pellach

- Gallai dysgwyr mwy abl ymchwilio i ddangosyddion eraill y mae llywodraethau a sefydliadau yn eu defnyddio i wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae ffynonellau data defnyddiol yn cynnwys:
  - data.worldbank.org
  - hdr.undp.org/ên/data
  - www.wolframalpha.com/

  Gofynnwch i'r dysgwyr gadw llygad am achosion lle mae'r data ar goll ar gyfer rhai gwledydd. Trafodwch resymau posibl dros hyn, megis diffyg cyllid ac adnoddau mewn gwledydd tlotach i gasglu'r data, neu lle mae gwrthdaro neu drychineb wedi effeithio ar wledydd. Gofynnwch i'r dysgwyr pam y gallai diffyg data dibynadwy ei gwneud yn anodd i lywodraethau a sefydliadau wneud penderfyniadau effeithiol a gwella bywydau pobl. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r gyfatebiaeth o sut y gallai disgybl sy'n absennol yn rheolaidd ei gwneud yn anos i'w athro/athrawon asesu a chefnogi dysgu'r disgybl yn effeithiol.
- Gallai dysgwyr mwy abl ddefnyddio gwefan Gapminder (www.gapminder.org) i ymchwilio i sut mae gwerthoedd rhai o'r "dangosyddion llesiant" hyn wedi newid dros amser a sut mae'r dangosyddion yn amrywio mewn gwahanol wledydd a rhanbarthau o'r byd.
- Gallai dysgwyr gyflawni Gweithgaredd 2.2 (*Rhannu'r arian*) eto ond y tro hwn maent yn seilio eu penderfyniadau ar y data "llesiant" o un o wledydd prosiect Bywydau Ifanc neu'r DU. Gellid dyrannu gwahanol wledydd i wahanol grwpiau. Ar ddiwedd y gweithgaredd, gofynnwch i'r grwpiau rannu eu dosbarthiadau a thrafod sut y gwnaethant ddefnyddio'r data i lywio eu penderfyniadau.
- Gallai dysgwyr archwilio cyfres o graffeg sydd wedi'u creu i ddangos cynnydd sydd wedi'i gyflawni tuag at Nodau Datblygu'r Mileniwm. Esboniwch fod y nodau hyn wedi'u pennu gan arweinwyr y byd yn 2000. Daeth y targedau hyn i ben yn 2015 ac fe'u disodlwyd gan y Nodau Datblygu Cynaliadwy (a gyflwynwyd i ddysgwyr yng *Ngweithgaredd 3.1*).
  - www.un.org/millenniumgoals/multimedia.shtml#prettyPhoto
- Gallai dysgwyr ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am ffeithluniau eraill a ddefnyddir gan lywodraethau, sefydliadau, unigolion a'r cyfryngau i ddychmygu gwybodaeth. Un man cychwyn posibl yw gwefan David McCandless: www.informationisbeautiful.net/
- Gallai dysgwyr hŷn roi cynnig ar weithgareddau *The Art of Inequality* gan Oxfam. Mae'r adnodd celf a dylunio hwn ar gyfer pobl ifanc 11-14 oed yn cefnogi dysgwyr i ddadansoddi ffeithluniau a

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

chymhwyso egwyddorion dylunio yn Adobe Photoshop i greu eu cynrychiolaethau gweledol trawiadol eu hunain o anghydraddoldeb.

  - www.oxfam.org.uk/education/resources/the-art-of-inequality

- Rhowch gynnig ar weithgareddau o adnoddau mathemateg Oxfam sef *Everyone Counts* ar gyfer disgyblion 8-12 oed a *More or Less Equal?* ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Mae'r adnoddau hyn yn defnyddio data Bywydau Ifanc i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o bynciau fel amser a thrin data.
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam yn ogystal â Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Mesur llesiant

Taflen adnoddau 1

Dangosydd	Ethiopia	India	Periw	Fiet-nam	Y DU
Incwm cyfartalog y pen$)	619	1,582	6,122	2,111	43,734
Disgwyliad oes (blynyddoedd)	64	68	75	76	81
Mynediad at ddŵr (% o gyfanswm y boblogaeth)	57	94	87	98	100
Nifer sydd wedi cofrestru mewn ysgol gynradd (% o'r grŵp oedran perthnasol)	86	92	93	98	100
Mynediad at drydan (% o gyfanswm y boblogaeth)	27	79	91	99	100
Cyfradd marwolaethau mamau (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	41	38	13	17	4
Allyriadau CO_2 (tunnell/person/blwyddyn)	0.1	1.7	1.9	1.7	6.4
Tanysgrifiadau ar gyfer ffonau symudol (fesul 100 o bobl)	43	79	110	131	126
Defnyddwyr y Rhyngrwyd (fesul 100 o bobl)	12	26	41	53	92
Sgôr anghydraddoldeb	33	35	44	38	33
Byw mewn tlodi eithafol (% o gyfanswm y boblogaeth)	34	21	3	3	Dim data
Poblogaeth (miliynau)	99	1311	31	92	65

Ffynhonnell y Data:

Data Agored Banc y Byd: data.worldbank.org/ *(Y data a ddefnyddiwyd oedd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael ar gyfer pob dangosydd, yn amrywio o 2010 – 2015)*

Yr Atlas Carbon Byd-eang: www.globalcarbonatlas.org/ *(Y data a ddefnyddiwyd oedd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael, yn amrywio o 2013 hyd 2015)*

Noder: Mae'r boblogaeth wedi'i thalgrynnu i'r filiwn agosaf. Nodir allyriadau CO_2 hyd at 1 lle degol. Mae'r holl ddata eraill wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Cynllunio eich ffeithlun

Taflen gweithgaredd 1

- Beth yw pwnc eich ffeithlun? Pa ddata ydych chi'n bwriadu eu defnyddio? Pa neges ydych chi'n dymuno ei phwysleisio?

- Ffeithlun ar gyfer pwy ydyw? A yw wedi'i chreu ar gyfer cynulleidfa benodol fel pobl ifanc?

- Beth sy'n dod i'r meddwl pan fyddwch yn ystyried y data hyn neu'r neges hon?

- Pa ddelweddau y byddwch yn eu defnyddio yn eich ffeithlun? Pa faint a pha liw fydd y delweddau? Sut y bydd y delweddau hyn yn helpu eich cynulleidfa i ddeall yr wybodaeth?

- Pa liw(iau) a ffont(iau) y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer eich testun? A fydd y testun i gyd o'r un maint neu a fydd rhywfaint o'r testun yn fwy? Pa destun a pham?

- Pa liw(iau) fydd yn y cefndir?

- Os ydych yn cymharu data o wahanol wledydd, beth y byddwch yn ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwahaniaeth (anghydraddoldeb) rhwng y gwledydd yn cael ei phwysleisio?

- Sut y byddwch yn sicrhau bod eich ffeithlun yn syml a ddim yn rhy gymhleth fel bod eich neges yn gwbl glir?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM